

Polisi Ilety bloc ar gyfer darparwyr Ilety prifysgol



Croeso i Endsleigh

Diolch i chi am ddewis Endsleigh ar gyfer eich yswiriant Ilety bloc.

Mae'r ddogfen bolisi hon yn rhoi manylion eich **yswiriant** a dylid ei darllen ar y cyd â'ch **tystysgrif yswiriant** ac unrhyw **arnodiadau** fel un contract sengl.

Os bydd angen i chi wneud hawliad, mae **ein** tîm wastad yma i helpu. Ar gyfer hawliad yn sgil **digwyddiad**, cysylltwch â **ni** cyn gynted â phosibl ar 0800 923 4042 er mwyn i **ni** allu dweud wrthyich beth sydd angen i chi ei wneud nesaf i helpu i gael penderfyniad ar eich hawliad. Gweler 'Sut byddwn **ni**'n setlo hawliadau' ar ddiwedd pob adran am fanylion pellach.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am eich **yswiriant** neu os hoffech drafod unrhyw anghenion yswiriant eraill, mae croeso i chi gysylltu â ni yn [www.endsleigh.co.uk/contact us](http://www.endsleigh.co.uk/contact-us) neu ffoniwch ni ar **0333 234 1552**.

Mae eich **polisi yswiriant Ilety bloc Endsleigh**, **tystysgrif yswiriant** ac unrhyw **arnodiadau** yn ddogfennau cyfreithiol - cadwch nhw'n ddiogel os gwelwch yn dda.

Ynglŷn â'ch polisi

Ein hymrwymiad i chi	2
Sut i ddarllen polisi yswiriant Ilety bloc Endsleigh	2
Polisi yswiriant Ilety bloc Endsleigh - ein contract gyda deiliad y polisi	3
Y gyfraith sy'n berthnasol i'r polisi yswiriant Ilety bloc Endsleigh hwn	3
Diffiniadau	3

Adrannau yswiriant

Adran 1 - Atebolrwydd cynnwys a thenantiaid	5
- Damweiniau ac anafiadau personol - Rhan A.	13
- Damweiniau ac anafiadau personol - Rhan B.	14
Adran 2 - Cyfarpar cyfrifiadurol yn y cyfeiriad yn ystod y tymor	16
Adran 3 - Cynnwys y tu allan i'r cyfeiriad yn ystod y tymor	17
Adran 4 - Cyfarpar cyfrifiadurol cludadwy ac eitemau trydanol cludadwy a gaiff eu cymryd allan o'r cyfeiriad yn ystod y tymor	19
Adran 5 - Difrod damweiniol i gynnwys	20
Adran 6 - Difrod damweiniol i gyfarpar cyfrifiadurol cludadwy	22
Adran 7 - Difrod damweiniol i gyfarpar cyfrifiadurol cludadwy yn y cyfeiriad yn ystod y tymor ac adeiladau'r coleg	23

Gwybodaeth bwysig

Eithriadau cyffredinol	24
Amodau cyffredinol	25
Sut i wneud hawliad	27
Ynglŷn â'ch yswirwyr	28
Diogelu data	28



Ein hymrwymiad i chi

Rydym ni'n anelu at ddarparu lefel uchel o wasanaeth a thalu hawliadau yn deg ac yn brydlon o dan delerau eich **Polisi yswiriant llety bloc Endsleigh**.

Os byddwch chi'n anfodlon ag unrhyw agwedd ar **ein** gwasanaeth, cysylltwch â ni:

ysgrifennwch at: Yr Adran Profiad Cwsmeriaid
Gwasanaethau Yswiriant Endsleigh Cyf.
Shurdington Road
Cheltenham
Swydd Gaerloyw
GL51 4UE

ffôn: 0800 085 8698

Gellir gweld manylion llawn **ein** gweithdrefnau cwyno ar **ein** gwefan yn www.endsleigh.co.uk/site-info/complaints/

Os ydych chi'n dal yn anfodlon mae gennych chi'r hawl i ofyn i'r Ombwdsmon Ariannol adolygu'ch achos. Gellir cysylltu â'r Ombwdsmon yn y cyfeiriad canlynol:

ysgrifennwch at: The Financial Ombudsman Service
Exchange Tower
London
E14 9SR

ffôn: 0800 023 4567

e-bost: complaint.info@financial-ombudsman.org.uk

Ni fydd cysylltu â'r Ombwdsmon yn effeithio ar eich hawl i gymryd camau cyfreithiol yn ein herbyn ni.

Rydym ni yn **dod o dan** y Cynllun Iawndal Gwasanaethau Ariannol (FSCS) sy'n golygu y gall fod gennych hawl i iawndal os byddwn ni'n methu â chyflawni **ein** rhwymedigaethau i chi. Mae hyn yn berthnasol i bob rhan o'r polisi onid yw wedi ei wrth-wneud yn benodol. Mae mwy o wybodaeth ar gael yn www.fscs.org.uk neu trwy gysylltu â'r FSCS yn uniongyrchol ar **0800 678 1100**.

Sut i ddarllen polisi yswiriant llety bloc Endsleigh

Dyma bolisi yswiriant llety bloc Endsleigh.

Eich yswiriant

Darllenwch eich **Polisi yswiriant llety bloc Endsleigh** yn ofalus i sicrhau bod yr **yswiriant** yn cwrdd â'ch gofynion a bod y manylion yn gywir, gan nodi unrhyw gyfyngiadau neu eithriadau sy'n berthnasol. Mae'r **yswiriant** yn weithredol ledled y **Deyrnas Unedig** ac eithrio lle rydym ni'n nodi'n wahanol yn y **Polisi yswiriant llety bloc Endsleigh**. Rydym ni wedi cynllunio llyfryn **Polisi yswiriant llety bloc Endsleigh** er mwyn eich helpu chi i ddeall yr **yswiriant** a ddarperir. Ar nifer o dudalennau, er mwyn eich cynorthwyo chi, rydym ni wedi rhannu'r testun o dan y penawdau canlynol:

“Beth sydd wedi'i yswirio”

Mae hyn yn rhoi gwybodaeth am yr **yswiriant** a ddarperir.



Sut i ddarllen polisi yswiriant llety bloc Endsleigh

“Beth sydd heb ei yswirio”

Mae'r testun hwn wedi'i argraffu gyferbyn â “Beth sydd wedi'i yswirio” er mwyn tynnu eich sylw at yr hyn nad yw wedi'i yswirio.

“Faint yw'r mwyaf y byddwn yn ei dalu”

Mae'r testun hwn hefyd wedi'i argraffu gyferbyn â “Beth sydd wedi'i yswirio” ac mae'n nodi'r uchafswm y byddwn ni'n ei dalu am yr yswiriant a ddisgrifir.

Yr adrannau o bolisi yswiriant llety bloc Endsleigh sy'n berthnasol i chi

Dangosir yr adrannau sy'n berthnasol i chi ar y dystysgrif yswiriant a roddwyd i'r unigolyn yswiriedig.

Polisi yswiriant llety bloc Endsleigh - ein contract gyda chi

Mae'r polisi yswiriant llety bloc Endsleigh hwn yn tystio i'r contract y mae deiliad y polisi wedi'i wneud gyda ni. Rydym yn yswirio'r unigolyn yswiriedig yn ystod cyfnod yr yswiriant yn unol â'r telerau a nodir ym mholisi yswiriant llety bloc Endsleigh yn gyfnewid am dalu'r premiwm a wnaed gan ddeiliad y polisi ar ran yr unigolyn yswiriedig.

Mae geiriad a thystysgrif yswiriant polisi yswiriant llety bloc Endsleigh i gyd yn rhan o'r polisi hwn a dylid eu darllen gyda'i gilydd. Maent yn dangos pa rannau o'r polisi sydd ar waith ac yn cynnwys manylion yr yswiriant.

Dylid darllen yr holl ddogfennau yn ofalus, gan roi sylw arbennig i'r eithriadau cyffredinol a'r amodau cyffredinol sy'n berthnasol i'r polisi cyfan.

Mae polisi yswiriant llety bloc Endsleigh yn nodi'r holl amgylchiadau y gall unigolyn yswiriedig wneud hawliad ynddynt.

Nid oes unrhyw ddeunydd hyrwyddo na llyfrynau cyngor yn rhan o'r polisi.

Y gyfraith sy'n berthnasol i'ch polisi yswiriant llety bloc Endsleigh

Mae eich polisi yn dod o dan reolaeth y gyfraith sy'n berthnasol i ble rydych chi'n preswyllo yn y Deyrnas Unedig. Os bydd anghytundeb ynghylch pa gyfraith sy'n berthnasol, cyfraith Lloegr fydd yn berthnasol ac mewn achos o'r fath, rydych yn cytuno i ymostwng i awdurdodaeth y llysoedd yng Nghymru a Lloegr yn unig. Oni chytunir yn wahanol, byddwn ni'n cyfathrebu â chi yn Saesneg.

Diffiniadau

Mae i'r geiriau neu'r ymadroddion allweddol canlynol, a restrir isod yn nhrefn yr wyddor, yr un ystyr ble bynnag maen nhw'n ymddangos a byddan nhw bob amser yn cael eu dangos mewn print bras.

Adeiladau'r coleg

Yr adeiladau cymunedol o fewn ffiniau'r coleg ac unrhyw adeiladau llety eraill a ddarperir gan y darparwr llety myfyrwyr y mae gan y myfyriwr fynediad â chaniatâd iddynt.

Anabledd llwyr parhaol

Anabledd a fydd yn atal yr unigolyn yswiriedig yn llwyr rhag cymryd rhan mewn unrhyw alwedigaeth o unrhyw fath a disgrifiad am weddill oes yr unigolyn yswiriedig heb obaith o adferiad.

Ardal gymunedol

Ystafell gyffredin, ystafell fyw a rennir, cegin neu ystafell ymolchi o fewn y breswylfa myfyrwyr ddynodedig.

Ardaloedd cyfleustodau

Ystafell gyfleustodau, ystafell gawod, ystafell ymolchi, ardal cegin neu doiled yn y cyfeiriadau a ddangosir ar y cyfeiriad yn ystod y tymor.

Arian

Yr eitemau canlynol, oll yn eiddo i'r unigolyn yswiriedig:

- ▶ darnau arian neu arian papur sydd mewn cylchrediad cyfredol
- ▶ sieciau, sieciau teithio, drafftiau bancwyr, archebion post neu archebion arian
- ▶ cardiau neu docynnau rhodd, talebau gwobrwyo, stampiau post cyfredol heb eu defnyddio
- ▶ stampiau cynilo, tystysgrifau cynilo neu fondiau premiwm
- ▶ cardiau ffôn, tocynnau teithio cyfredol neu docynnau eraill

Arnodiad

Newid i'r manylion sy'n rhan o Bolisi yswiriant llety bloc Endsleigh.

Ategolion cyfrifiadurol

Meicroffonau, uchelseinyddion wedi'u prynu'n annibynnol o becyn cyfrifiadurol personol, gyriannau datodadwy, gwe-gamerâu, ffyn rheoli, padiau rheoli neu unrhyw galedwedd gemau arall.



Diffiniadau

Cerbydau a badau

Unrhyw gerbydau a bwerir gan drydan neu'n fecanyddol, carafanau, trelars, badau dŵr gan gynnwys byrddau syrffio, cerbydau hwylfyrddio tir, hofrenfad, awyrennau, cerbydau pob tir neu feiciau cwad gan gynnwys eu rhannau neu ategolion, offer a chyfarpar sain mewn car (ond nid cyfarpar garddio domestig, trolïau golff neu gadeiriau olwyn a weithredir gan fatri, modelau neu deganau a weithredir gan fatri neu gan droed).

Coleg

Sefydliad addysgol cydnabyddedig ar gyfer dysgu pellach neu uwch yn y **Deyrnas Unedig**.

Cwrs

Cwrs addysg bellach neu addysg uwch cydnabyddedig mewn **coleg** cydnabyddedig lle mae'r **unigolyn yswiriedig** yn mynychu ar sail llawn amser yn ystod y flwyddyn academaidd sy'n digwydd yn ystod **cyfnod yr yswiriant** a lle mae cwblhau yn hanfodol er mwyn cyflawni cymhwyster cydnabyddedig.

Cyfarpar adloniant clywedol/gweledol

Radios, tiwnwyr, chwaraewyr casét, chwaraewyr cryno ddisg, chwaraewyr mini ddisg, deciau recordiau, seinchwyddwyr, uchelseinyddion, systemau cerddoriaeth, chwaraewyr mp3/mp4 (ond nid y gerddoriaeth sydd wedi'i lawrlwytho a/neu ei storio ynddynt) ac unrhyw gyfarpar sain a fwriedir ar gyfer defnydd cludadwy.

Cyfarpar cyfrifiadurol cludadwy

Unrhyw gyfarpar cyfrifiadurol a bwerir neu y gellir ei bweru gan fatri, gan gynnwys gliadiuron, ipads, cledriaduron, argraffwyr cludadwy, cynorthwyddion digidol personol (PDAs) ac eitemau o fath tebyg .

Cyfarpar ffotograffig

- ▶ camerâu, camcordyddion a chyfarpar recordio fideo
- ▶ ysbïenddrychau a thelesgopau
- ▶ cyfarpar datblygu, golygu a chyfarpar gweledol cysylltiedig
- ▶ ategolion sy'n gysylltiedig ag unrhyw un o'r uchod

Cyfeiriad cartref parhaol

Cartref rhiant neu warcheidwad cyfreithiol yr **unigolyn yswiriedig** yn y **Deyrnas Unedig**.

Cyfeiriad yn ystod y tymor

Yr ystafell neu'r ystafelloedd y mae'r **unigolyn yswiriedig** yn byw ynddi/ynddynt yn ystod tymor y **coleg**.

Cyfnod (yr) yswiriant

Y cyfnod sy'n dechrau ac yn gorffen ar y dyddiadau hynny a ddangosir yn y **dystysgrif yswiriant**.

Cynnwys

Yr holl nwyddau, dillad ac eiddo personol sy'n eiddo i'r **unigolyn yswiriedig** neu y mae'r **unigolyn yswiriedig** yn gyfreithiol gyfrifol amdanynt trwy gytundeb ysgrifenedig (heb gynnwys unrhyw eitem sydd wedi'i heithrio o dan unrhyw gontract llety) sy'n gwneud yr **unigolyn yswiriedig** yn gyfrifol am eu hyswirio heblaw am **arian**, allweddi,

ffonau symudol (gweler Adran 1 - buddion ychwanegol), unrhyw **cyfarpar cyfrifiadurol cludadwy** neu unrhyw eitem sydd wedi'i heithrio'n benodol gan y polisi hwn.

Darparwr llety myfyrwyr

Y brifysgol, **coleg** prifysgol, **coleg**, cwmni neu unigolyn preifat sy'n rheoli gosod, cynnal a chadw a diogelwch y **breswylfa myfyrwyr ddynodedig**.

Deiliad y polisi

Y **darparwr llety myfyrwyr** a enwir ar y **dystysgrif yswiriant**.

Digwyddiad/digwydd

Unrhyw ddigwyddiad unigol neu gyfres o ddigwyddiadau sy'n deillio o un ffynhonnell neu y gellir eu priodoli i un ffynhonnell neu achos gwreiddiol.

Digwyddiad yswiriedig

Y **digwyddiad** sy'n arwain at golled neu ddifrod i eiddo a restrir o dan "**yswiriant** ar gyfer **cynnwys yr unigolyn yswiriedig**".

Ffôn symudol

Ffôn symudol neu ffôn clyfar sy'n eiddo i'r **unigolyn yswiriedig**, lle mai'r brif swyddogaeth yw gwneud neu dderbyn galwadau ac sy'n defnyddio cerdyn sim a gyflenwir yn y **Deyrnas Unedig**.

Gwerth ail brynu

Y gost o ail brynu eitemau newydd yn lle rhai sydd gennyh, ac eithrio dillad a llieiniau'r cartref, eiddo ar rent ac eiddo'r **coleg** sydd ar fenthg lle tynnir swm ar sail traul.

Gwyliau

Y cyfnodau hynny rhwng diwedd a dechrau tymor y **coleg**.

Heb ei feddiannu

Lle nad yw'r **unigolyn yswiriedig** yn **preswyllo** yn y **cyfeiriad yn ystod y tymor**.

Heb oruchwyliaeth

Lle bydd yr **unigolyn yswiriedig** wedi gadael ei eitemau ac heb gymryd rhagofalon rhesymol i gadw ei eitemau yn ddiogel. Rhestrir enghreifftiau lle galledd **ni** ystyried bod yr eitemau wedi'u gadael **heb oruchwyliaeth** isod:

- ▶ Gadael eich eitemau allan o'ch golwg yn fwriadol pan na allwch chi eu gweld tra bydd pobl eraill yn gallu
- ▶ Gadael eich eitemau ar fwrdd mewn man cyhoeddus lle maen nhw allan o'ch cyrraedd
- ▶ Gadael eich eitemau yn eich car pan nad ydyn nhw wedi'u cuddio a'u cloi i fwrdd

Nid ydym **ni**'n disgwyl i'r **unigolyn yswiriedig** adael ei eitemau **heb oruchwyliaeth**, hyd yn oed os byddant wedi'u cuddio yn eu cludwr eu hunain, mewn bag, bag llaw neu friff cês.

Mynediad trwy rym a thrais

Yr hyn y mae difrod gweladwy i adeiladwaith yr adeilad yn y man lle cafwyd mynediad yn dystiolaeth iddo.



Diffiniadau

Ni/ein

Yr yswiriwr a ddangosir ar eich **tystysgrif yswiriant** neu Wasanaethau Yswiriant Endsleigh Cyfyngedig yn gweithredu ar eu rhan.

Pethau gwerthfawr

- ▶ Unrhyw eitem o aur, arian neu fetel gwerthfawr arall, gemwaith, gemfeini neu berlau
- ▶ Watshys neu glaciau
- ▶ Eitemau ffwr
- ▶ Gweithiau celf, lluniau neu greiriau
- ▶ Casgliadau stampiau, darnau arian, arian papur neu fedalau

Polisi yswiriant llety bloc Endsleigh.

Mae hyn yn cynnwys geiriad, **tystysgrif yswiriant** ac arnodiadau **Polisi llety bloc Endsleigh**.

Preswylfa myfyrwr ddynodedig

Neuadd breswyl neu lety arall i fyfyrwr a reolir gan y **darparwr llety myfyrwr** ble lleolir y **cyfeiriad yn ystod y tymor**.

Preswyllo

Aros dros nos yn y **cyfeiriad yn ystod y tymor**.

Swm a yswiriwyd

Yr uchafswm sy'n daladwy am bob adran **yswiriant** neu eitem wedi'i hyswirio a bennir yng ngeiriad neu **dystysgrif yswiriant** polisi llety bloc Endsleigh.

Adran 1 - Atebolrwydd cynnwys a thenantiaid

Mae'r **dystysgrif yswiriant** yn dangos a oes **yswiriant** yn berthnasol o dan yr adran hon a'r **swm a yswiriwyd** sy'n berthnasol

Beth sydd wedi'i yswirio

Byddwn ni'n talu am golled neu ddifrod i'r **cynnwys** sy'n eiddo i'r **unigolyn yswiriedig** yn y **cyfeiriad yn ystod y tymor** o ganlyniad uniongyrchol i'r **digwyddiadau** yswiriedig canlynol.

Dwyn neu ymgais i ddwyn

Tâl-dros-ben

Y swm cyntaf sy'n daladwy gan yr **unigolyn yswiriedig** ar gyfer unrhyw ddigwyddiad unigol o dan bob adran o **Bolisi yswiriant llety bloc Endsleigh** ac a dynnir allan o swm setlo'r hawliad i'r **unigolyn yswiriedig**.

Tymor coleg

Y cyfnodau o weithgaredd academiaidd llawn yn y **coleg** fel y'u cyhoeddwyd gan y **coleg**.

Uchafswm eitem unigol

Yr uchafswm sy'n berthnasol i unrhyw eitem unigol neu grŵp a enwyd o eitemau sydd wedi'u hyswirio gan y polisi.

Unigolyn/unigolion yswiriedig

Pob unigolyn sy'n byw yn y **cyfeiriad yn ystod y tymor** y talwyd premiwm ar ei gyfer.

Y Deyrnas Unedig

Lloegr, yr Alban, Cymru, Gogledd Iwerddon, Ynys Manaw ac Ynysoedd y Sianel.

Yswiriant

Yn cyfeirio at yr adrannau hynny o **Bolisi yswiriant llety bloc Endsleigh** sy'n weithredol ac unrhyw gyfyngiadau, gofynion neu dâl-dros-ben ychwanegol sy'n berthnasol - dangosir y rhain oll ar y **dystysgrif yswiriant**.

Beth sydd heb ei yswirio

Fyddwn ni ddim yn talu'r **tâl-dros-ben** a nodir ar y **dystysgrif yswiriant** ar gyfer pob hawliad

Fyddwn ni ddim yn talu am unrhyw ladrad:

- os bydd wedi'i achosi gan dwyll
- o gerbyd modur wedi'i barcio, ac eithrio fel y disgrifir yn "buddion ychwanegol e) - cludo ar ddechrau a diwedd tymor **coleg**"
- pan fydd y **cyfeiriad yn ystod y tymor heb ei feddiannu** am unrhyw gyfnod o amser a bod unrhyw ddrws neu ffenestr y mae modd ei g/chyrraedd ar lawr gwaelod y **cyfeiriad yn ystod y tymor** wedi'i (g)adael ar agor neu heb ei g/chloi

Rydym ni'n tynnu eich sylw at Amodau Cyffredinol 3. Gofal rhesymol sydd ar dudalen 26 y **Polisi yswiriant llety bloc Endsleigh** hwn



Adran 1

Beth sydd wedi'i yswirio

Tân, mellt, ffrwydrad, taranfollt neu ddaeargryn

Mwg

Ymsuddiant neu wthiad i'r safle lle saif y **cyfeiriad yn ystod y tymor**, neu dirlithriad neu gwymp tir

Storm neu lifogydd

Niwed a achosir gan ddŵr neu olew yn gollwng o unrhyw beiriant sefydlog, pibell neu danc

Terfysg, cythrwfl sifil, streic, aflonyddwch llafur a gwleidyddol

Niwed a achoswyd gan awyrennau, anifeiliaid neu gerbydau yn taro'r **cyfeiriad yn ystod y tymor** neu'r adeiladau lle mae'r **cyfeiriad yn ystod y tymor** wedi ei leoli

Niwed a achoswyd gan goed neu ganghennau, polion lamp neu bolion telegraff yn cwmpo ar yr adeiladau lle mae'r **cyfeiriad yn ystod y tymor** wedi ei leoli

Difrod maleisus

Beth sydd heb ei yswirio

Gweler yr Eithriadau cyffredinol ar dudalen 24

Gweler yr Eithriadau cyffredinol ar dudalen 24

Fyddwn ni ddim yn talu am:

- i. ddifrod a achosir gan strwythurau newydd yn setlo neu dir newydd ei wneud yn setlo
- ii. difrod o ganlyniad i ddymchwel neu atgyweiriadau neu newidiadau strwythurol i'r **cyfeiriad yn ystod y tymor**

Gweler yr Eithriadau cyffredinol ar dudalen 24

Fyddwn ni ddim yn talu am ddifrod:

- i. fydd yn digwydd pan na fydd yr **unigolyn yswiriedig** neu gyd-denant wedi ymweld â'r **cyfeiriad yn ystod y tymor** am 30 diwrnod yn olynol
- ii. i'r peiriant, y bibell neu'r tanc sydd wedi gollwng

Gweler yr Eithriadau cyffredinol ar dudalen 24

Fyddwn ni ddim yn talu am ddifrod a achoswyd gan anifeiliaid anwes domestig y mae'r **unigolyn yswiriedig** yn gyfrifol amdanynt

Gweler yr Eithriadau cyffredinol ar dudalen 24

Fyddwn ni ddim yn talu am ddifrod maleisus:

- i. oni bai bod y digwyddiad yn cael ei adrodd i'r heddlu
- ii. sy'n digwydd wedi i'r **cyfeiriad yn ystod y tymor** gael ei adael **heb ei feddiannu** am fwy na 30 diwrnod
- iii. a achosir gan yr **unigolyn yswiriedig** neu unrhyw unigolyn arall sy'n byw yn y **cyfeiriad yn ystod y tymor**

Adran 1 - Buddion ychwanegol

Beth sydd wedi'i yswirio

Yn ogystal ag yswiriant ar gyfer y **cynnwys** sy'n eiddo i'r **unigolyn yswiriedig** yn y **cyfeiriad yn ystod y tymor**, byddwn ni'n darparu yswiriant o dan yr amgylchiadau canlynol:

- a) **Cynnwys sydd i ffwrdd dros dro o'r cyfeiriad yn ystod y tymor**
Byddwn ni'n yswirio'r **cynnwys** sy'n eiddo i'r **unigolyn yswiriedig** am golled neu ddifrod trwy unrhyw **ddigwyddiad** yswiriedig tra bydd:
 - ▶ yn y **cyfeiriad cartref parhaol**
 - ▶ mewn unrhyw annedd preifat sydd â phreswylwyr
 - ▶ mewn unrhyw adeilad lle mae'r unigolyn yswiriedig yn preswyllo dros dro
- b) **Yswiriant gwyliau yn y cyfeiriad yn ystod y tymor**
Byddwn ni'n talu am golled neu ddifrod i'r **cynnwys** sy'n eiddo i'r **unigolyn yswiriedig** trwy **ddigwyddiad** yswiriedig tra byddant wedi'u gadael yn y **cyfeiriad yn ystod y tymor** yn ystod **gwyliau** am uchafswm o 60 diwrnod olynol
- c) **Storio mewn preswylfa myfyrwyr ddynodedig yn ystod gwyliau**
Byddwn ni'n talu am golled neu ddifrod i'r **cynnwys** sy'n eiddo i'r **unigolyn yswiriedig** trwy **ddigwyddiad** yswiriedig tra byddant wedi'u symud o'r **cyfeiriad yn ystod y tymor** i storfa ddiogel wedi'i dynodi gan y **darparwr llety myfyrwyr** yn ystod **gwyliau** am uchafswm o 60 diwrnod olynol
- d) **Ardaloedd cyfleustodau a chymunedol dynodedig mewn neuaddau preswyl**
Byddwn ni'n talu am golled neu ddifrod i'r **cynnwys** sy'n eiddo i'r **unigolyn yswiriedig** trwy **ddigwyddiad** yswiriedig tra bydd wedi ei symud o'r **cyfeiriad yn ystod y tymor** i ardal cyfleustodau, **ardal gymunedol** neu unrhyw storfa dan glo arall ar y campws

Beth sydd heb ei yswirio

Fyddwn ni ddim yn talu'r **tâl-dros-ben** a nodir ar y **dystysgrif yswiriant** ar gyfer pob hawliad.

- a) Fyddwn ni ddim yn talu am:
 - i. unrhyw swm sy'n fwy na'r uchafswm a ddangosir ar y **dystysgrif yswiriant** oni bai bod hynny yn y **cyfeiriad cartref parhaol**
 - ii. unrhyw golled o ganlyniad i ladrad oni bai ei bod yn dilyn **mynediad trwy rym a thrais**, ac eithrio yn y **cyfeiriad cartref parhaol**
 - iii. unrhyw golled neu ddifrod y tu allan i'r **Deyrnas Unedig**
- b) Fyddwn ni ddim yn talu am:
 - i. golled neu ddifrod i'r **cynnwys** sy'n eiddo i'r **unigolyn yswiriedig** yn ystod **gwyliau** oni bai ei fod wedi'i gloi y tu mewn i'r **cyfeiriad yn ystod y tymor** gydag allwedd ac nad oes gan neb heblaw am yr unigolyn **yswiriedig** fynediad
- c) Gweler yr Eithriadau cyffredinol ar dudalen 24
- d) Fyddwn ni ddim yn talu:
 - i. unrhyw swm sy'n fwy na'r uchafswm a ddangosir ar y **dystysgrif yswiriant**
 - ii. unrhyw swm sy'n fwy na'r uchafswm a ddangosir ar y **dystysgrif yswiriant** am ladrad oni bai ei fod yn dilyn **mynediad trwy rym a thrais** i'r ardal cyfleustodau, **yr ardal gymunedol** neu'r storfa dan glo
 - iii. unrhyw swm sy'n fwy na'r uchafswm a ddangosir ar y **dystysgrif yswiriant** am ddifrod i ddillad a achosir gan gyfarpar golchi dillad diffygiol

Adran 1 - Buddion ychwanegol

Beth sydd wedi'i yswirio

- e) **Cludo ar ddechrau a diwedd tymor y coleg**
Byddwn ni'n talu am golled neu ddifrod i'r **cynnwys** sy'n eiddo i'r **unigolyn yswiriedig** trwy **ddigwyddiad** yswiriedig tra byddant yn cael eu cludo'n uniongyrchol ac heb ddargyfeiriad at bwrpas symud rhwng y **cyfeiriad yn ystod y tymor** a'r **cyfeiriad cartref parhaol** ar ddechrau a diwedd pob tymor **coleg** yn unig

- f) **Arian**
Byddwn ni'n talu am golli **arian** trwy **ddigwyddiad** yswiriedig yn y **cyfeiriad yn ystod y tymor**

- g) **Cardiau credyd**
Byddwn ni'n talu am atebolrwydd cyfreithiol yr **unigolyn yswiriedig** yn dilyn colled ac wedi hynny ddefnydd anawdurdodedig o gerdyn credyd, siec neu gerdyn banc yr **unigolyn yswiriedig** yn y **Deyrnas Unedig**

Beth sydd heb ei yswirio

- e) Fyddwn ni ddim yn talu am:
- gynnwys** sy'n eiddo i'r **unigolyn yswiriedig** a gaiff ei ddwyn o gerbyd modur
 - tra bydd wedi'i adael **heb oruchwyliaeth**, ac eithrio tra bydd wedi'i barcio dros dro ac nid dros nos i ganiatáu am seibiant byr yn ystod y daith rhwng y **cyfeiriad yn ystod y tymor** a'r **cyfeiriad cartref parhaol** ar ddechrau neu ar ddiwedd tymor y **coleg**
 - tra bydd wedi'i barcio dros nos rhwng hanner nos a 6.00am
 - Ile nad yw'r **cynnwys** wedi'i storio mewn cist dan glo neu flwch menig wedi'i gloi neu wedi'i guddio o'r golwg a dan glo yn adran bagiau'r cerbyd
 - unrhyw swm sy'n fwy na'r uchafswm a ddangosir ar y **dystysgrif yswiriant** ar gyfer unrhyw ddyfais cario unigol a'i chynnwys
 - unrhyw golled sy'n digwydd y tu allan i'r **Deyrnas Unedig**

- f) Fyddwn ni ddim yn talu am:
- unrhyw swm sy'n fwy na'r uchafswm a ddangosir ar y **dystysgrif yswiriant**
 - unrhyw golled trwy ladrad oni bai ei fod yn dilyn **mynediad trwy rym a thrais** i'r **cyfeiriad yn ystod y tymor**

- g) Fyddwn ni ddim yn talu am:
- unrhyw swm sy'n fwy na'r terfyn a ddangosir ar y **dystysgrif yswiriant** yn ystod **cyfnod yr yswiriant**
 - unrhyw atebolrwydd sy'n deillio o golli'r cerdyn oni bai y rhoddir gwybod ar unwaith i'r awdurdod dyroddi ac yn ddarostyngedig i gydymffurfio â'r holl delerau ac amodau sy'n gysylltiedig â'r cerdyn.
 - defnydd anawdurdodedig o gerdyn sy'n deillio wedi i'r awdurdod dyroddi gael gwybod am y golled
 - unrhyw atebolrwydd sy'n arwain o golled neu ddefnydd wedi hynny y tu allan i'r **Deyrnas Unedig**

Adran 1 - Buddion ychwanegol

Beth sydd wedi'i yswirio

- h) **Bwyd wedi'i rewi**
Byddwn ni'n talu am golled neu ddifrod i fwyd mewn unrhyw oergell neu rewgell a achosir gan godiad neu gwmp yn y tymheredd sy'n deillio o doriad trydan damweiniol neu halogiad gan unrhyw fygdarthau oergell.
- i) **Cloeon newydd**
Byddwn ni'n talu am gost allweddi, cardiau allwedd a chloeon newydd i'r **cyfeiriad yn ystod y tymor** yn dilyn difrod sy'n deillio o ladrad neu ymgais i ladrata.
- j) **Atebolrwydd am nwyddau cartref ar rent**
Byddwn ni'n talu am symiau y bydd yr **unigolyn yswiriedig** yn dod yn atebol yn gyfreithiol am eu talu yn dilyn colled neu ddifrod trwy **ddigwyddiad** yswiriedig i nwyddau cartref (ac eithrio ffonau a heb gynnwys unrhyw eitem sydd wedi'i heithrio o dan unrhyw gontract llety) sydd wedi'u rhentu o dan delerau cytundeb rhentu ffurfiol tra byddant yn y **cyfeiriad yn ystod y tymor**

Beth sydd heb ei yswirio

- h) Fyddwn ni ddim yn talu:
- unrhyw atebolrwydd sy'n fwy na'r uchafswm a ddangosir ar y **dystysgrif yswiriant** yn ystod **cyfnod yr yswiriant**
 - colled neu ddifrod sy'n deillio o weithred fwriadol gan yr awdurdod ynni yn atal neu gyfyngu ar bŵer, gan gynnwys streic, cloi allan neu anghydfod diwydiannol
 - unrhyw golled neu ddifrod o oergell neu rewgell nad yw wedi'i leoli yn y **cyfeiriad yn ystod y tymor**, mewn ardal gymunedol neu ardal gyfleustodau
 - unrhyw hawliad lle mae'r oergell neu'r rhewgell yn fwy na 15 oed

i) Fyddwn ni ddim yn talu:

- unrhyw swm sy'n fwy na'r terfyn a ddangosir ar y **dystysgrif yswiriant** yn ystod **cyfnod yr yswiriant**
- unrhyw ddifrod i ddrysau allanol

j) Fyddwn ni ddim yn talu:

- unrhyw golled oni bai bod yr **unigolyn yswiriedig** wedi'i enwi fel y parti sy'n gyfrifol am y nwyddau ar rent ar y cytundeb rhentu gyda'r cwmni dan sylw
- unrhyw swm mewn hawliad sy'n fwy na'r hyn a nodir ar "brisiad ysgrifenedig" sy'n dderbyniol i ni ac wedi'i ddarparu o swyddfa gyfrifon ganolog y cwmni rhentu dan sylw
- unrhyw atebolrwydd a ysgwyddir gan yr **unigolyn yswiriedig** ar gyfer unrhyw ran o atebolrwydd cytundebol trydydd parti p'un ai yw'n seiliedig ar gyfraniad tuag at rent neu fel arall
- unrhyw hawliad am nwyddau cartref ar rent oni bai bod y **swm yswiriedig** o dan "**yswiriant** ar gyfer **cynnwys yr unigolyn yswiriedig**" yn ddigonol i gynnwys yr atebolrwydd yn ei gyfanrwydd i unrhyw gwmni rhentu am yr holl nwyddau cartref sydd ar rent
- unrhyw swm sy'n fwy na'r uchafswm a ddangosir ar y **dystysgrif yswiriant** ar gyfer unrhyw eitem unigol
- colled neu ddifrod i unrhyw eitemau y mae'r **unigolyn yswiriedig** yn gyfrifol amdanynt o dan delerau cytundeb tenantiaeth

Adran 1 - Buddion ychwanegol

Beth sydd wedi'i yswirio

- k) **Atebolrwydd tenantiaid**
Byddwn ni'n talu am symiau y bydd yr **unigolyn yswiriedig** yn dod yn atebol yn gyfreithiol am eu talu yn dilyn difrod i eiddo materol landlordiaid sydd dan ofal neu reolaeth yr **unigolyn yswiriedig** ac y maent yn gyfreithiol gyfrifol amdanynt o dan delerau cytundeb tenantiaeth ffurfiol sy'n deillio o **ddigwyddiad** yswiriedig
- l) **Atebolrwydd am lyfrau llyfrgell y coleg ac eiddo'r coleg ar fenthg**
Byddwn ni'n talu am symiau y bydd yr **unigolyn yswiriedig** yn dod yn atebol yn gyfreithiol am eu talu yn dilyn colled neu ddifrod i lyfrau llyfrgell y **coleg** neu eiddo'r **coleg** ar fenthg trwy **ddigwyddiad** yswiriedig tra byddant
- ▶ yn y cyfeiriad yn ystod y tymor
 - ▶ yn y cyfeiriad cartref parhaol
 - ▶ yn y coleg
 - ▶ yn cael eu cludo'n uniongyrchol rhwng y cyfeiriad yn ystod y tymor a'r cyfeiriad cartref parhaol ar ddechrau a diwedd pob tymor coleg
- m) **Atebolrwydd am gyfarpar gwasanaeth cyhoeddus**
Byddwn ni'n talu am symiau y bydd yr **unigolyn yswiriedig** yn dod yn atebol yn gyfreithiol am eu talu yn dilyn difrod trwy **ddigwyddiad** yswiriedig i
- ▶ fesuryddion nwy, trydan neu ddŵr
 - ▶ cyfarpar ffôn nad yw'n gludadwy sy'n eiddo i'r darparwr gwasanaeth ac yn cael ei rentu ganddo yn y cyfeiriad yn ystod y tymor

Beth sydd heb ei yswirio

- k) Fyddwn ni ddim yn talu am:
- unrhyw swm sy'n fwy na'r terfyn a ddangosir ar y **dystysgrif yswiriant** yn ystod **cyfnod yr yswiriant**
 - unrhyw ddifrod damweiniol i nwyddau landlordiaid
- l) Fyddwn ni ddim yn talu am:
- unrhyw swm sy'n fwy na'r uchafswm a ddangosir ar y **dystysgrif yswiriant** am lyfrau llyfrgell y **coleg**
 - unrhyw swm sy'n fwy na'r uchafswm a ddangosir ar y **dystysgrif yswiriant** am eiddo'r **coleg** sydd ar fenthg
 - unrhyw hawliad nad yw'n cael ei gadarnhau gan fil gan y **darparwr llety myfyrwr**
 - unrhyw golled neu ddifrod sy'n digwydd y tu allan i'r **Deyrnas Unedig**
 - unrhyw golled neu ddifrod i unrhyw eiddo neu lyfrau a gaiff eu gadael **heb oruchwyliaeth**
- m) Fyddwn ni ddim yn talu am:
- unrhyw swm sy'n fwy na'r uchafswm a ddangosir ar y **dystysgrif yswiriant**
 - unrhyw golled neu ddifrod sy'n deillio o ladrad neu a achosir gan unigolion troseddol oni bai ei fod yn dilyn **mynediad trwy rym a thrais**
 - arian** mewn mesuryddion neu ffonau
 - atebolrwydd am **ffonau symudol**, eu hategolion neu gostau cysylltiedig
 - unrhyw golled neu ddifrod lle nad yw'r **unigolyn yswiriedig** wedi'i enwi ar y cytundeb rhentu na'r bil gan y cwmni dan sylw

Adran 1 - Buddion ychwanegol

Beth sydd wedi'i yswirio

n) Atebolrwydd personol

Byddwn ni'n talu am symiau y bydd yr **unigolyn yswiriedig** yn dod yn atebol yn gyfreithiol am eu talu, gan gynnwys costau a threuliau yr eir iddynt gyda ein cydsyniad i amddiffyn hawliad am iawndal o ganlyniad i

- ▶ farwolaeth neu anaf corfforol damweiniol i unrhyw unigolyn nad yw'n aelod o deulu neu aelwyd yr **unigolyn yswiriedig** nac yn preswyllo gyda'r **unigolyn yswiriedig**
- ▶ difrod i eiddo nad yw'n eiddo i na dan ofal neu reolaeth yr **unigolyn yswiriedig** neu aelod o'i deulu sy'n digwydd yn y **Deyrnas Unedig** yn ystod **cyfnod yr yswiriant**
- ▶ byddwn ni hefyd yn talu costau a threuliau cyfreithiol y mae modd eu hadennill gan unrhyw hawlydd a'r holl gostau a threuliau y cytunir arnynt gennym ni yn ysgrifenedig
- ▶ os bydd yr **unigolyn yswiriedig** yn marw, bydd ei gynrychiolwyr cyfreithiol personol yn elwa o fesurau gwarchod yr **yswiriant** hwn am atebolrwydd yr **unigolyn yswiriedig**

Beth sydd heb ei yswirio

n) Fyddwn ni ddim yn talu am:

- unrhyw swm sy'n fwy na'r uchafswm a ddangosir ar y **dystysgrif yswiriant** mewn perthynas ag unrhyw nifer o hawliadau sy'n deillio o un **digwyddiad**
- unrhyw atebolrwydd mewn perthynas â
 - ▶ marwolaeth neu anaf corfforol damweiniol i'r **unigolyn yswiriedig** neu unrhyw aelod o'i deulu neu unrhyw unigolyn sy'n byw gydag ef/hi neu'n cael ei gyflogi ganddo/ganddi
 - ▶ difrod i eiddo sy'n eiddo i neu sydd dan ofal neu reolaeth yr **unigolyn yswiriedig** neu unrhyw aelod o'i deulu neu unrhyw unigolyn sy'n byw gydag ef/hi neu'n cael ei gyflogi ganddo/ganddi
 - ▶ unrhyw fasnach, proffesiwn, busnes neu gyflogaeth
 - ▶ unrhyw gontract y mae'r **unigolyn yswiriedig** wedi ymrwymo iddo oni bai y byddai atebolrwydd cyfreithiol beth bynnag
 - ▶ perchnogaeth, meddiant neu weithredu:
 - **cerbydau a badau**
 - unrhyw lifft pŵer
 - drylliau, ac eithrio gynnau saethu neu ynnau awyr a ddefnyddir ar gyfer gweithgareddau chwaraeon
 - ▶ perchnogaeth neu feddiant ar:
 - geffylau tra byddant yn cael eu defnyddio ar gyfer hela, rasio neu polo
 - anifeiliaid anwes nad ydyn nhw fel arfer yn ddof yn y **Deyrnas Unedig**
 - ci o fath a bennir o dan adran 1 o Ddeddf Cŵn Peryglus 1991 neu a bennir yn Rheoliadau Cŵn (safnrwymo) Gogledd Iwerddon 1991
 - anifeiliaid heblaw ceffylau neu anifeiliaid anwes domestig
 - ▶ perchnogaeth, meddiannaeth, meddiant ar neu ddefnydd o unrhyw dir neu adeilad
 - ▶ unrhyw ddigwyddiad a achosir gan neu sy'n deillio o neu y cyfrennir ato gan unrhyw denantiaeth, busnes, proffesiwn neu alwedigaeth
 - ▶ trosglwyddo unrhyw glefyd trosglwyddadwy sy'n deillio'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol gan yr **unigolyn yswiriedig** neu unrhyw unigolyn sy'n byw gyda nhw
 - ▶ unrhyw weithred fwrriadol, ddi-hid neu faleisus gan yr **unigolyn yswiriedig**
 - ▶ rasio o unrhyw fath heblaw ar droed

Adran 1 - Buddion ychwanegol

Beth sydd wedi'i yswirio

- o) **Marwolaeth neu anabledd llwyr parhaol rhiant neu warcheidwad cynhaliol trwy ddamwain**
Byddwn ni'n talu **£ 5,000** i'r **unigolyn yswiriedig** yn dilyn marwolaeth neu anabledd llwyr parhaol damweiniol rhiant neu warcheidwad y mae'r **unigolyn yswiriedig** yn ddibynnol yn ariannol arno/arni i gwblhau ei **gwrs**, a bod marwolaeth o'r fath yn deillio o anaf trwy ddulliau treisgar a gweladwy allanol yn unig yn ystod **cyfnod yr yswiriant**
- p) **Damweiniau ac anafiadau personol**
Byddwn ni'n talu unrhyw fudd priodol a nodir isod i'r **unigolyn yswiriedig** os bydd yn cael anafiadau sy'n deillio'n uniongyrchol o ddamweiniau a achosir gan ddulliau treisgar a gweladwy allanol yn unig yn ystod **cyfnod yr yswiriant** o fewn y **Deyrnas Unedig** a fydd yn uniongyrchol ac yn annibynnol ar unrhyw achos arall peri anabledd fel y nodir o fewn 12 mis i'r digwyddiad

Beth sydd heb ei yswirio

Gweler yr Eithriadau cyffredinol ar dudalen 24

- p) Fyddwn ni ddim yn talu am:
- unrhyw anaf neu anabledd sy'n deillio o, neu sy'n gysylltiedig mewn unrhyw fodd â
 - ▶ hedfan (heblaw teithio fel teithiwr sy'n talu ar hediad wedi'i amserlennu), teithio mewn balŵn, neidio bynji, plymio môr dwfn (a ddiffinnir fel plymio i ddyfnderoedd sy'n fwy na 30 metr), gleidio, barcuta, sgïo jet, hedfan microlight, raliô modur, parasiwtio, paragleidio, paresgyn, chwaraeon proffesiynol o unrhyw fath, rasio o unrhyw fath (heblaw ar droed), dringo coed, hwylio unigol ar y môr neu chwaraeon gaeaf
 - ▶ defnyddio peiriannau
 - ▶ beichiogrwydd neu enedigaeth plentyn, salwch meddwl, effeithiau alcohol neu gyffuriau, hunanladdiad neu ymgais i gyflawni hunanladdiad neu gamau bwriadol sy'n rhoi'r **unigolyn yswiriedig** mewn perygl o farwolaeth, anaf neu anabledd oni bai bod hynny mewn ymgais i achub bywyd dynol neu oherwydd bod bywyd yr **unigolyn yswiriedig** mewn perygl
 - ▶ unrhyw nam neu wendid corfforol sy'n bodoli eisoes
 - unrhyw hawliad lle nad yw'r **unigolyn yswiriedig** yn gallu darparu adroddiad gan ei feddyg neu ymgynghorydd ei hun ar ei draul ei hun os bydd gofyn gennym ni. Gall fod yn ofynnol gennym i'r **unigolyn yswiriedig** gael archwiliad meddygol pellach gan **ein** meddyg a bydd yr **unigolyn yswiriedig** yn cytuno i gael archwiliad meddygol cyn amlled ag y bydd angen ar **ein** traul.
 - unrhyw swm sy'n fwy na **£10,000** ar gyfer unrhyw gyfuniad o ran a - buddion c) ac e)
 - unrhyw ddamwain neu ddigwyddiad sy'n digwydd y tu allan i'r **Deyrnas Unedig**



Adran 1 - Buddion ychwanegol

Damweiniau ac anafiadau personol

Rhan A - buddion

- a) Anabledd llwyr parhaol a achosir gan dân yn y **cyfeiriad yn ystod y tymor** neu o ganlyniad i drais gweladwy gan fyrgleriaid

£50,000

- b) Anabledd llwyr parhaol o ganlyniad i drais gweladwy gan unigolion troseddol sy'n deillio y tu allan i'r **cyfeiriad yn ystod y tymor**

£50,000

- c) Anabledd llwyr parhaol o ganlyniad i anaf corfforol damweiniol

£10,000

Dim ond pan fydd yr anabledd wedi para 104 wythnos yn olynol a'i fod wedi'i ardystio fel un sy'n para neu'n debygol o bara am gyfnod amhenodol gan arbenigwr y byddwn ni'n talu buddion a), b) neu c). Gallwn ni, yn ôl ein disgrisiwn, dalu'r cyfan neu ran o'r budd cyn i'r cyfnod 104 wythnos ddod i ben

- d) Costau angladd

£500

- e) Colli unrhyw un o'r canlynol yn llwyr ac yn barhaol trwy eu torri ymaith neu golli defnydd parhaol sy'n para neu'n debygol o bara am gyfnod amhenodol:

Golwg yn y ddau lygad	£5,000
Un fraich	£3,750
Un goes	£3,500
Un llaw	£3,000
Clyw yn y ddwy glust	£2,500
Un droed	£2,500
Golwg mewn un llygad	£1,500
Un bawd	£1,250
Clyw mewn un glust	£1,000
Un bys blaen	£750
Un bys bach	£500
Bys canol neu fys modrwy	£400
Bawd troed mawr	£250
Unrhyw fawd troed arall	£150

- f) **Cynnwys** a ddifrodor yn ystod ymosodiad

Rhaid bod colli defnydd heblaw am dorri i ffwrdd yn para dwy flynedd cyn y bydd iawndal yn daladwy ac, ar yr adeg honno, rhaid iddo fod yn barhaol neu'n debygol o bara am gyfnod amhenodol.

£150



Adran 1 - Buddion ychwanegol

Damweiniau ac anafiadau personol

Rhan B - buddion

- a) Ar yr amod bod hawliad wedi'i yswirio gan Ran A, byddwn ni hefyd yn talu hyd at £1,000 tuag at gostau ychwanegol yr **unigolyn yswiriedig** wrth ddilyn blwyddyn ychwanegol o astudio pe baent wedi eu hatal rhag sefyll arholiadau o ganlyniad i'r ddamwain.
- b) Ar yr amod bod hawliad wedi'i yswirio gan Ran A, byddwn ni'n ad-dalu rhent a dalwyd ymlaen llaw ac nad oes modd ei hawlio'n ôl fel arall, a lle cododd costau llety amgen yn dilyn damwain hyd at uchafswm o **£500** ac o leiaf 8 diwrnod o analluogrwydd meddygol tystiedig.

Beth sydd wedi'i yswirio

- q) **Dwyn ffôn symudol**
Dwyn ffôn symudol sy'n eiddo i'r **unigolyn yswiriedig** mewn **digwyddiad** pan fydd **ffôn symudol** wedi'i ddwyn neu gael difrod maleisus tra bydd yn y **cyfeiriad yn ystod y tymor**, byddwn ni'n darparu **ffôn symudol** sydd â'r un fanyleb neu werth neu debyg yn ôl ein disgrisiwn

Beth sydd heb ei yswirio

- q) Fyddwn ni ddim yn talu:
 - i. y **£25** cyntaf o bob hawliad
 - ii. unrhyw swm sy'n fwy na'r uchafswm a ddangosir ar y **dystysgrif yswiriant**
 - iii. am unrhyw golled trwy ladrad oni bai ei fod yn sgil **mynediad trwy rym a thrais**
 - iv. difrod maleisus a achosir gan yr **unigolyn yswiriedig** neu unrhyw unigolyn arall sy'n byw yn y **cyfeiriad yn ystod y tymor**
 - v. ar gyfer unrhyw alwadau heb eu hawdurdodi
 - vi. am unrhyw ddifrod damweiniol
 - vii. am unrhyw hawliad am ladrad neu ddifrod maleisus o unrhyw **ardal gymunedol**

Adran 1 - Buddion ychwanegol

Sut rydym yn setlo hawliadau am atebolrwydd tenantiaid, cyfarpar gwasanaeth cyhoeddus a chynnwys yr unigolyn yswiriedig yn y cyfeiriad yn ystod y tymor

Beth sydd wedi'i yswirio

Byddwn ni'n penderfynu a ddylid atgyweirio'r eiddo sydd wedi'i ddifrodi/golli ynteu gael rhai newydd, neu fel arall efallai y byddwn ni am dalu mewn arian parod. Bydd unrhyw daliad arian parod yn adlewyrchu **ein** barn am y gost o wneud iawn am y golled neu'r difrod.

Os nad yw'r un fanyleb neu fodel ar gael, darperir un newydd â manyleb debyg.

Os gellir atgyweirio'r difrod, ond na chaiff yr atgyweirio neu'r adfer ei gyflawni, byddwn ni'n talu'r gostyngiad yng ngwerth yr eitem yn sgil y difrod, ond heb fynd y tu hwnt i amcan gost yr atgyweirio. Byddwn ni'n adfer y **swm yswiriedig** ar gyfer **cynnwys** a yswirir o dan yr adran hon yn awtomatig o ddyddiad talu unrhyw hawliad, oni bai y byddwn ni wedi rhoi rhybudd ysgrifenedig i'r **unigolyn yswiriedig** na fyddwn yn gwneud hynny cyn talu.

Faint yw'r mwyaf y byddwn yn ei dalu?

- i. Fyddwn ni ddim yn talu mwy na chyfanswm y **swm yswiriedig** a nodir ar y **dystysgrif yswiriant**
- ii. Byddwn ni'n didynnu swm ar gyfer traul a dibrisiant ar gyfer dillad a llieiniau'r cartref, nwyddau cartref ar rent ac eiddo'r **coleg** sydd ar fenthyg
- iii. Fyddwn ni ddim yn talu mwy na'r gwerth a nodir o dan 'Beth sydd heb ei yswirio' yn Buddion ychwanegol a) -q)
- iv. unrhyw swm sy'n fwy na'r uchafswm a ddangosir ar y **dystysgrif yswiriant** ar gyfer unrhyw eitem unigol
- v. Fyddwn ni ddim yn talu mwy na'r swm a ddangosir ar y **dystysgrif yswiriant** ar gyfer pob un o'r canlynol:
 - ▶ **cyfarpar adloniant clywedol/gweledol**
 - ▶ **cyfarpar ffotograffig**
- vi. Fyddwn ni ddim yn talu mwy na'r swm a ddangosir ar y **dystysgrif yswiriant** ar gyfer pob un o'r grwpiau canlynol o eitemau:
 - ▶ **pethau gwerthfawr**
 - ▶ **offerynnau cerdd**
 - ▶ **CDau, DVDau, casetiau fideo a sain, mini ddisgiau, recordiau, cetris, CD ROMau, DVD ROMau, a gemau cyfrifiadurol**
- vii. Fyddwn ni ddim yn talu mwy na'r swm a ddangosir ar y **dystysgrif yswiriant** ar gyfer pob un o'r grwpiau canlynol o eitemau:
 - ▶ **ffôn symudol**
 - ▶ **unrhyw ddilledyn unigol**
 - ▶ **ategolion cyfrifiadurol**
- viii. Fyddwn ni ddim yn talu mwy na'r swm a ddangosir ar y **dystysgrif yswiriant** fel cyfanswm ar gyfer unrhyw nwyddau cartref ar rent mewn unrhyw un o **gyfnodau'r yswiriant**



Adran 2 - Cyfarpar cyfrifiadurol yn y cyfeiriad yn ystod y tymor

Mae'r dystysgrif yswiriant yn dangos a oes yswiriant yn berthnasol o dan yr adran hon a'r swm a yswiriwyd sy'n berthnasol

Beth sydd wedi'i yswirio

Byddwn ni'n talu am golled neu ddifrod i **gyfarpar cyfrifiadurol cludadwy** sy'n eiddo i'r **unigolyn yswiriedig** trwy unrhyw un o'r **digwyddiadau yswiriedig** tra byddant yn y **cyfeiriad yn ystod y tymor** yn ystod tymor y **coleg** ac yn ystod **gwyliau** pan fydd yr **unigolyn yswiriedig** yn preswyllo yn y **cyfeiriad yn ystod y tymor**.

Beth sydd heb ei yswirio

Fyddwn ni ddim yn talu:

- i. y **tâl-dros-ben** a nodir ar y **dystysgrif yswiriant** ar gyfer pob hawliad.
- ii. am unrhyw gostau yn sgil ailadeiladu data meddalwedd
- ii. am raglenni cryno ddisg
- iv. am unrhyw feddalwedd neu lawlyfrau meddalwedd
- v. am unrhyw **gyfarpar ffotograffig** neu **gyfarpar adloniant clywedol/ gweledol** y gellir ei ddefnyddio ar y cyd â **chyfarpar cyfrifiadurol cludadwy** neu unrhyw gyfarpar neu **ategolion cyfrifiadurol** eraill
- vi. unrhyw hawliad oni bai bod modd darparu tystiolaeth mai'r **unigolyn yswiriedig** sydd berchen ar y **cyfarpar cyfrifiadurol cludadwy**

Sut rydym yn setlo hawliad am gyfarpar cyfrifiadurol cludadwy yn y cyfeiriad yn ystod y tymor

Beth sydd wedi'i yswirio

Byddwn ni'n penderfynu a ddylid atgyweirio'r eiddo sydd wedi'i ddifrodi/golli ynteu gael rhai newydd, neu fel arall efallai y byddwn ni am dalu mewn arian parod. Bydd unrhyw daliad arian parod yn adlewyrchu **ein** barn am y gost o wneud iawn am y golled neu'r difrod.

Os nad yw'r un fanyleb neu fodel ar gael, darperir un newydd â manyleb debyg.

Os gellir atgyweirio'r difrod, ond na chaiff yr atgyweirio neu'r adfer ei gyflawni, byddwn ni'n talu'r gostyngiad yng ngwerth yr eitem yn sgil y difrod, ond heb fynd y tu hwnt i amcan gost yr atgyweirio. Byddwn ni'n adfer y **swm yswiriedig** ar gyfer **yswiriant cyfarpar cyfrifiadurol cludadwy** o dan yr adran hon yn awtomatig o ddyddiad talu unrhyw hawliad, oni bai y byddwn ni wedi rhoi rhybudd ysgrifenedig i'r **unigolyn yswiriedig** na fyddwn yn gwneud hynny cyn talu.

Faint yw'r mwyaf y byddwn yn ei dalu?

Fyddwn ni ddim yn talu mwy na chyfanswm y **swm yswiriedig** a nodir ar y **dystysgrif yswiriant**.



Adran 3 - Cynnwys y tu allan i'r cyfeiriad yn ystod y tymor

Mae'r dystysgrif yswiriant yn dangos a oes yswiriant yn berthnasol o dan yr adran hon a'r swm a yswiriwyd sy'n berthnasol

Beth sydd wedi'i yswirio

Byddwn ni'n talu am golled neu ddifrod i unrhyw eitemau a ddiffinnir fel **cynnwys** sy'n eiddo i'r **unigolyn yswiriedig** o ganlyniad uniongyrchol i'r **digwyddiadau** yswiriedig a ddangosir o dan Adran 1 - yswiriant ar gyfer **cynnwys** yr **unigolyn yswiriedig** yn y **cyfeiriad yn ystod y tymor** (dim buddion ychwanegol) neu ddifrod neu golled ddamweiniol tra byddwch chi yn neu i ffwrdd o'r **cyfeiriad yn ystod y tymor** sydd yn digwydd yn y **Deyrnas Unedig** ac am hyd at 30 diwrnod yn unrhyw le yn y byd.

Beth sydd heb ei yswirio

Fyddwn ni ddim yn talu:

- i. y **tâl-dros-ben** a nodir ar y **dystysgrif yswiriant** ar gyfer pob hawliad.
- ii. ar gyfer unrhyw eiddo nad yw'n eiddo i'r **unigolyn yswiriedig** neu nad yw'r **unigolyn yswiriedig** yn atebol yn gyfreithiol amdano
- iii. am ladrad o gerbyd modur wedi'i barcio, ac eithrio fel y disgrifir yn "adran 1 - yswiriant ar gyfer **cynnwys** yr **unigolyn yswiriedig** yn y **cyfeiriad yn ystod y tymor** - buddion ychwanegol e) cludo ar ddechrau a diwedd tymor y **coleg**"
- iv. colled neu ddifrod i'r **cynnwys yswiriedig** os cânt eu gadael **heb oruchwyliaeth** ar unrhyw adeg mewn man sydd â mynediad cyhoeddus
- v. am golli unrhyw un o'r canlynol:
 - ▶ colled neu ddifrod i gyfarpar chwaraeon neu ddillad chwaraeon tra byddant yn cael eu defnyddio
 - ▶ torri crwyn a llinynnau neu grafu, cleisio neu dolcio offerynnau cerdd
 - ▶ torri gwydr (heblaw lensys) neu eitemau o natur frau (heblaw gemwaith), crafu neu dolcio
 - ▶ difrod i ynnau gan ffrwydrad mewnol
 - ▶ **arian**
 - ▶ colled neu ddifrod i unrhyw eitem nad yw wedi'i diffinio fel **cynnwys**
- vi. Fyddwn ni ddim yn talu mwy na'r swm a ddangosir ar y **dystysgrif yswiriant** ar gyfer unrhyw hawliad am emwaith oni bai y gellir darparu derbynneb neu brisiad ar gyfer yr eitem honno (gweler Amodau cyffredinol 7. Tystiolaeth o werth tudalen 26)
- vii. beiciau a'u hategolion
- viii. dannedd gosod
- ix. **ffôn symudol**
- x. **cerbydau a badau**
- xi. **cyfarpar cyfrifiadurol cludadwy** ac eitemau trydanol cludadwy
- xii. Fyddwn ni ddim yn talu mwy na'r swm a ddangosir ar y **dystysgrif yswiriant** ar gyfer unrhyw hawliad am lensys cyffwrdd. Mae'r yswiriant yn gyfyngedig i ddim mwy na 2 hawliad mewn unrhyw **gyfnod yswiriant**



Adran 3

Sut rydym yn setlo hawliadau am gyfarpar cyfrifiadurol cludadwy yn y cyfeiriad yn ystod y tymor

Beth sydd wedi'i yswirio

Byddwn ni'n penderfynu a ddylid atgyweirio'r eiddo sydd wedi'i ddifrodi/golli ynteu gael rhai newydd, neu fel arall efallai y byddwn ni am dalu mewn arian parod. Bydd unrhyw daliad arian parod yn adlewyrchu **ein** barn am y gost o wneud iawn am y golled neu'r difrod.

Os nad yw'r un fanyleb neu fodel ar gael, darperir un newydd â manyleb debyg.

Os gellir atgyweirio'r difrod, ond na chaiff yr atgyweirio neu'r adfer ei gyflawni, byddwn ni'n talu'r gostyngiad yng ngwerth yr eitem yn sgil y difrod, ond heb fynd y tu hwnt i amcan gost yr atgyweirio. Byddwn ni'n adfer y **swm yswiriedig** ar gyfer eitemau nad ydynt yn drydanol a **yswirir** o dan yr adran hon yn awtomatig o ddyddiad talu unrhyw hawliad, oni bai y byddwn ni wedi rhoi rhybudd ysgrifenedig i'r **unigolyn yswiriedig** na fyddwn yn gwneud hynny cyn talu.

Faint yw'r mwyaf y byddwn yn ei dalu?

- i. Fyddwn ni ddim yn talu mwy na chyfanswm y **swm yswiriedig** am golled neu ddifrodi damweiniol i eitemau nad ydynt yn drydanol a gaiff eu cymryd allan o'r **cyfeiriad yn ystod y tymor** neu **ein** cost am wneud iawn am y golled neu'r difrod, pa un bynnag yw'r swm isaf
- ii. Byddwn ni'n didynnu swm ar gyfer traul a dibrisiant ar gyfer dillad a llieiniau'r cartref, nwyddau cartref ar rent ac eiddo'r **coleg** sydd ar fenthyg
- iii. Fyddwn ni ddim yn talu mwy na'r swm a ddangosir ar y **dystysgrif yswiriant** ar gyfer unrhyw eitem unigol:



Adran 4 - Cyfarpar cyfrifiadurol cludadwy ac eitemau trydanol cludadwy a gaiff eu cymryd allan o'r cyfeiriad yn ystod y tymor

Mae'r dystysgrif yswiriant yn dangos a oes yswiriant yn berthnasol o dan yr adran hon a'r swm a yswiriwyd sy'n berthnasol

Beth sydd wedi'i yswirio

Byddwn ni'n talu am golled neu ddifrod i **gyfarpar cyfrifiadurol cludadwy** ac eitemau trydanol cludadwy sy'n eiddo i'r **unigolyn yswiriedig** o ganlyniad uniongyrchol i'r **digwyddiadau** yswiriedig a ddangosir o dan Adran 1 - **yswiriant** ar gyfer **cynnwys** sy'n eiddo i'r **unigolyn yswiriedig** yn y **cyfeiriad yn ystod y tymor** (dim buddion ychwanegol) neu ddifrod neu golled ddamweiniol tra byddwch chi yn neu i ffwrdd o'r **cyfeiriad yn ystod y tymor** sydd yn digwydd yn y **Deyrnas Unedig** ac am hyd at 30 diwrnod yn unrhyw le yn y byd.

Beth sydd heb ei yswirio

Fyddwn ni ddim yn talu:

- i. y **tâl-dros-ben** a nodir ar y **dystysgrif yswiriant** ar gyfer pob hawliad.
- ii. am unrhyw **gyfarpar cyfrifiadurol cludadwy** neu eitem trydanol gludadwy nad yw'n eiddo i'r **unigolyn yswiriedig** neu nad yw'r **unigolyn yswiriedig** yn atebol yn gyfreithiol amdanynt
- iii. dwyn o gerbyd modur wedi'i barcio
- iv. colled neu ddifrod i'r **cyfarpar cyfrifiadurol cludadwy yswiriedig** neu eitemau trydanol cludadwy os cânt eu gadael **heb oruchwyliaeth** ar unrhyw adeg mewn man sydd â mynediad cyhoeddus
- v. am unrhyw gostau yn sgil ailadeiladu data meddalwedd
- vi. am raglenni cryno ddisg
- vii. am unrhyw feddalwedd neu lawlyfrau meddalwedd
- viii. unrhyw hawliad oni bai bod modd darparu tystiolaeth mai'r **unigolyn yswiriedig** sydd yn berchen ar y **cyfarpar cyfrifiadurol cludadwy** neu'r eitemau trydanol cludadwy
- ix. dwyn **cyfarpar cyfrifiadurol cludadwy** neu eitemau trydanol cludadwy o unrhyw le heblaw'r **cyfeiriad yn ystod y tymor** neu'r **cyfeiriad cartref parhaol** oni bai ei fod yn sgil mynediad trwy rym a thrais
- x. **ffonau symudol**



Adran 4

Sut rydym yn setlo hawliadau am gyfarpar cyfrifiadurol cludadwy ac eitemau trydanol cludadwy a gaiff eu cymryd allan o'r cyfeiriad yn ystod y tymor

Beth sydd wedi'i yswirio

Byddwn ni'n penderfynu a ddylid atgyweirio'r eiddo sydd wedi'i ddifrodi/golli ynteu gael rhai newydd, neu fel arall efallai y byddwn ni am dalu mewn arian parod. Bydd unrhyw daliad arian parod yn adlewyrchu ein barn am y gost o wneud iawn am y golled neu'r difrod.

Os nad yw'r un fanyleb neu fodel ar gael, darperir un newydd â manyleb debyg.

Os gellir atgyweirio'r difrod, ond na chaiff yr atgyweirio neu'r adfer ei gyflawni, byddwn ni'n talu'r gostyngiad yng ngwerth yr eitem yn sgil y difrod, ond heb fynd y tu hwnt i amcan gost yr atgyweirio. Byddwn ni'n adfer y **swm yswiriedig** ar gyfer **cyfarpar cyfrifiadurol cludadwy** ac eitemau trydanol cludadwy a **yswirir** o dan yr adran hon yn awtomatig o ddyddiad talu unrhyw hawliad, oni bai y byddwn ni wedi rhoi rhybudd ysgrifenedig i'r **unigolyn yswiriedig** na fyddwn yn gwneud hynny cyn talu.

Beth sydd heb ei yswirio

Fyddwn ni ddim yn talu mwy:

- i. na chyfanswm y **swm yswiriedig** am **gyfarpar cyfrifiadurol cludadwy** ac eitemau trydanol cludadwy a gaiff eu cymryd allan o'r **cyfeiriad yn ystod y tymor** neu **ein** cost am wneud iawn am y golled neu'r difrod, pa un bynnag yw'r swm isaf
- ii. na'r swm a ddangosir ar y **dystysgrif yswiriant** ar gyfer unrhyw eitem unigol

Adran 5 - Difrod damweiniol i gynnwys

Mae'r **dystysgrif yswiriant** yn dangos a oes **yswiriant** yn berthnasol o dan yr adran hon a'r **swm a yswiriwyd** sy'n berthnasol

Beth sydd wedi'i yswirio

Byddwn ni'n talu am ddifrod damweiniol i **gynnwys** sy'n eiddo i'r **unigolyn yswiriedig** neu y mae'r **unigolyn yswiriedig** yn atebol yn gyfreithiol amdanynt (ac eithrio nwyddau landlordiaid nad ydynt yn ddarnau gosod a gosodiadau tra byddant yn y **cyfeiriad yn ystod y tymor** yn ystod tymor y **coleg** ac yn ystod **gwyliau** pan fydd yr **unigolyn yswiriedig** yn preswyllo yn y **cyfeiriad yn ystod y tymor**.

Beth sydd heb ei yswirio

Fyddwn ni ddim yn talu:

- i. y **tâl-dros-ben** a nodir ar y **dystysgrif yswiriant** ar gyfer pob hawliad.
- ii. ar gyfer unrhyw eiddo nad yw'n eiddo i'r **unigolyn yswiriedig** neu nad yw'r **unigolyn yswiriedig** yn atebol yn gyfreithiol amdano
- iii. am unrhyw un o'r canlynol:
 - ▶ torri crwyn a llinynnau neu grafu, cleisio neu dolcio offerynnau cerdd
 - ▶ torri gwydr (heblaw lensys) neu eitemau o natur frau (heblaw gemwaith), crafu neu dolcio
 - ▶ difrod i ynnau gan ffrwydrad mewnol
 - ▶ colled neu ddifrod i unrhyw eitem nad yw wedi'i diffinio fel **cynnwys**
 - ▶ difrod damweiniol i nwyddau landlordiaid
 - ▶ difrod i chwaraewyr DVD cludadwy, chwaraewyr CD a mini ddisgiau cludadwy, chwaraewyr mp3/mp4, DVDau, CDau a mini ddisgiau

Adran 5

Sut rydym yn setlo hawliadau am ddifrod damweiniol i gynnwys yn y cyfeiriad yn ystod y tymor

Beth sydd wedi'i yswirio

Byddwn ni'n penderfynu a ddylid atgyweirio'r eiddo sydd wedi'i ddifrodi/golli ynteu gael rhai newydd, neu fel arall efallai y byddwn ni am dalu mewn arian parod. Bydd unrhyw daliad arian parod yn adlewyrchu ein barn am y gost o wneud iawn am y golled neu'r difrod.

Os nad yw'r un fanyleb neu fodel ar gael, darperir un newydd â manyleb debyg.

Os gellir atgyweirio'r difrod, ond na chaiff yr atgyweirio neu'r adfer ei gyflawni, byddwn ni'n talu'r gostyngiad yng ngwerth yr eitem yn sgil y difrod, ond heb fynd y tu hwnt i amcan gost yr atgyweirio. Byddwn ni'n adfer y **swm yswiriedig** ar gyfer **cynnwys a yswirir** o dan yr adran hon yn awtomatig o ddyddiad talu unrhyw hawliad, oni bai y byddwn ni wedi rhoi rhybudd ysgrifenedig i chi na fyddwn yn gwneud hynny cyn talu.

Faint yw'r mwyaf y byddwn yn ei dalu?

- i. Fyddwn ni ddim yn talu mwy na chyfanswm y **swm yswiriedig** am ddifrod damweiniol i **gynnwys** yn y **cyfeiriad yn ystod y tymor** a nodir ar y **dystysgrif yswiriant**
- ii. Byddwn ni'n didynnu swm ar gyfer traul a dibrisiant ar gyfer dillad a lliainiau'r cartref, nwyddau ar rent ac eiddo'r **coleg** sydd ar fenthyg
- iii. Fyddwn ni ddim yn talu mwy na'r swm a ddangosir ar y **dystysgrif yswiriant** ar gyfer unrhyw eitem unigol:
- iv. Fyddwn ni ddim yn talu mwy na'r swm a ddangosir ar y **dystysgrif yswiriant** ar gyfer pob un o'r canlynol:
 - ▶ **cyfarpar adloniant clywedol/gweledol** (ac eithrio chwaraewyr CD, chwaraewyr mini ddisgiau mini a chwaraewyr mp3/mp4)
 - ▶ **cyfarpar ffotograffig**
- v. Fyddwn ni ddim yn talu mwy na'r swm a ddangosir ar y **dystysgrif yswiriant** ar gyfer pob un o'r grwpiau canlynol o eitemau:
 - ▶ **pethau gwerthfawr**
 - ▶ offerynnau cerdd
 - ▶ CDau, DVDau, casetiau fideo a sain, mini ddisgiau, recordiau, cetrir, CD ROMau, DVD ROMau, a gemau cyfrifiadurol
- vi. Fyddwn ni ddim yn talu mwy na'r swm a ddangosir ar y **dystysgrif yswiriant** ar gyfer pob un o'r grwpiau canlynol o eitemau:
 - ▶ unrhyw ddilledyn unigol
 - ▶ ategolion cyfrifiadurol



Adran 6 - Difrod damweiniol i gyfarpar cyfrifiadurol cludadwy

Mae'r dystysgrif yswiriant yn dangos a oes yswiriant yn berthnasol o dan yr adran hon a'r swm a yswiriwyd sy'n berthnasol

Beth sydd wedi'i yswirio

Byddwn ni'n talu am ddifrod damweiniol i gyfarpar cyfrifiadurol cludadwy sy'n eiddo i'r unigolyn yswiriedig tra byddant yn y cyfeiriad yn ystod y tymor yn ystod tymor y coleg ac yn ystod gwyliau pan fydd yr unigolyn yswiriedig yn preswyllo yn y cyfeiriad yn ystod y tymor.

Beth sydd heb ei yswirio

Fyddwn ni ddim yn talu:

- i. y tâl-dros-ben a nodir ar y dystysgrif yswiriant ar gyfer pob hawliad.
- ii. am unrhyw gyfarpar cyfrifiadurol cludadwy nad ydynt yn eiddo i'r unigolyn yswiriedig
- iii. am unrhyw gostau yn sgil ailadeiladu data meddalwedd
- iv. am raglenni cryno ddisg
- v. am unrhyw feddalwedd neu lawlyfrau meddalwedd
- vi. am unrhyw gyfarpar ffotograffig neu gyfarpar adloniant clywedol/ gweledol y gellir ei ddefnyddio ar y cyd â chyfarpar cyfrifiadurol cludadwy neu unrhyw gyfarpar neu ategolion cyfrifiadurol eraill
- vii. unrhyw hawliad oni bai bod modd darparu tystiolaeth mai'r unigolyn yswiriedig sydd berchen ar y cyfarpar cyfrifiadurol cludadwy

Sut rydym yn setlo hawliadau am ddifrod damweiniol i gyfarpar cyfrifiadurol cludadwy yn y cyfeiriad yn ystod y tymor

Beth sydd wedi'i yswirio

Byddwn ni'n penderfynu a ddylid atgyweirio'r eiddo sydd wedi'i ddifrodi/golli ynteu gael rhai newydd, neu fel arall efallai y byddwn ni am dalu mewn arian parod. Bydd unrhyw daliad arian parod yn adlewyrchu ein barn am y gost o wneud iawn am y golled neu'r difrod.

Os nad yw'r un fanyleb neu fodel ar gael, darperir un newydd â manyleb debyg.

Os gellir atgyweirio'r difrod, ond na chaiff yr atgyweirio neu'r adfer ei gyflawni, byddwn ni'n talu'r gostyngiad yng ngwerth yr eitem yn sgil y difrod, ond heb fynd y tu hwnt i amcan gost yr atgyweirio. Byddwn ni'n adfer y swm yswiriedig ar gyfer yswiriant cyfarpar cyfrifiadurol cludadwy o dan yr adran hon yn awtomatig o ddyddiad talu unrhyw hawliad, oni bai y byddwn ni wedi rhoi rhybudd ysgrifenedig i'r unigolyn yswiriedig na fyddwn yn gwneud hynny cyn talu.

Faint yw'r mwyaf y byddwn yn ei dalu?

Fyddwn ni ddim yn talu mwy na chyfanswm y swm yswiriedig a nodir ar y dystysgrif yswiriant



Adran 7 - Difrod damweiniol i gyfarpar cyfrifiadurol cludadwy yn y cyfeiriad yn ystod y tymor ac adeiladau'r coleg

Mae'r dystysgrif yswiriant yn dangos a oes yswiriant yn berthnasol o dan yr adran hon a'r swm a yswiriwyd sy'n berthnasol

Beth sydd wedi'i yswirio

Byddwn ni'n talu am ddifrod damweiniol i gyfarpar cyfrifiadurol cludadwy sy'n eiddo i'r unigolyn yswiriedig tra byddant yn y cyfeiriad yn ystod y tymor ac yn adeiladau'r coleg yn ystod tymor y coleg ac yn ystod gwyliau pan fydd yr unigolyn yswiriedig yn preswyllo yn y cyfeiriad yn ystod y tymor.

Beth sydd heb ei yswirio

Fyddwn ni ddim yn talu:

- i. y tâl-dros-ben a nodir ar y dystysgrif yswiriant ar gyfer pob hawliad.
- ii. am unrhyw gyfarpar cyfrifiadurol cludadwy nad ydynt yn eiddo i'r unigolyn yswiriedig
- iii. am unrhyw gostau yn sgil ailadeiladu data meddalwedd
- iv. am raglenni cryno ddisg
- v. am unrhyw feddalwedd neu lawlyfrau meddalwedd
- vi. am unrhyw gyfarpar ffotograffig neu gyfarpar adloniant clywedol/ gweledol y gellir ei ddefnyddio ar y cyd â chyfarpar cyfrifiadurol cludadwy neu unrhyw gyfarpar neu ategolion cyfrifiadurol eraill

Sut rydym yn setlo hawliadau am ddifrod damweiniol i gyfarpar cyfrifiadurol cludadwy yn y cyfeiriad yn ystod y tymor ac adeiladau'r coleg

Beth sydd wedi'i yswirio

Byddwn ni'n penderfynu a ddylid atgyweirio'r eiddo sydd wedi'i ddifrodi/golli ynteu gael rhai newydd, neu fel arall efallai y byddwn ni am dalu mewn arian parod. Bydd unrhyw daliad arian parod yn adlewyrchu ein barn am y gost o wneud iawn am y golled neu'r difrod.

Os nad yw'r un fanyleb neu fodel ar gael, darperir un newydd â manyleb debyg.

Os gellir atgyweirio'r difrod, ond na chaiff yr atgyweirio neu'r adfer ei gyflawni, byddwn ni'n talu'r gostyngiad yng ngwerth yr eitem yn sgil y difrod, ond heb fynd y tu hwnt i amcan gost yr atgyweirio. Byddwn ni'n adfer y swm yswiriedig ar gyfer yswiriant cyfarpar cyfrifiadurol cludadwy o dan yr adran hon yn awtomatig o ddyddiad talu unrhyw hawliad, oni bai y byddwn ni wedi rhoi rhybudd ysgrifenedig i'r unigolyn yswiriedig na fyddwn yn gwneud hynny cyn talu.

Faint yw'r mwyaf y byddwn yn ei dalu?

Fyddwn ni ddim yn talu mwy na chyfanswm y swm yswiriedig a nodir ar y dystysgrif yswiriant.



Eithriadau cyffredinol

Mae'r eithriadau hyn yn berthnasol i'r polisi cyfan

Fyddwn ni ddim yn talu am y canlynol:

- ▶ unrhyw ostyngiad yng ngwerth yr eiddo yswiriedig ar ôl ei atgyweirio, ei adfer neu gael rhywbeth newydd yn ei le
- ▶ unrhyw golledion neu gostau nad ydynt yn uniongyrchol gysylltiedig â'r digwyddiad a achosodd yr hawliad, oni nodir yn benodol yn y polisi hwn
- ▶ unrhyw ddamwain neu ddigwyddiad sy'n digwydd y tu allan i unrhyw **gyfnod yswiriant** sy'n dod o dan y polisi
- ▶ cost cael eitem yn lle unrhyw eitem sydd heb ei ddifrodi neu ran o unrhyw eitem dim ond oherwydd ei bod yn rhan o set, swît neu'n un o nifer o eitemau o fath, lliw neu ddyluniad tebyg
- ▶ colled neu ddifrod i unrhyw eiddo a yswirir yn fwy penodol gan unrhyw yswiriant arall neu lle mae yswiriant arall yn yswirio'r un golled neu atebolrwydd
- ▶ colled neu ddifrod i unrhyw eitemau a ddefnyddir mewn cysylltiad ag unrhyw fusnes, masnach neu broffesiwn
- ▶ unrhyw atebolrwydd cyfreithiol sy'n codi o unrhyw fusnes, masnach neu broffesiwn
- ▶ unrhyw hawliad sy'n deillio o:

- weithredoedd bwriadol, di-hid neu droseddol gan yr **unigolyn yswiriedig** neu ei deulu
- achosion graddol gan gynnwys dirywiad neu draul
- llwydni, ffwng, amodau hinsoddol neu atmosfferig, rhew, pydredd gwlyb neu sych
- unrhyw broses o lanhau, atgyweirio neu addasu
- fermin, pryfed neu gnoi, crafu, rhwygo neu faeddu gan anifeiliaid anwes
- methiant trydanol neu fecanyddol
- dyluniad, deunyddiau neu grefftwaith diffygiol
- firsau cyfrifiadurol
- ymbelydredd ioneiddio, ymbelydredd, tanwydd niwclear, gwastraff neu gyfarpar niwclear
- rhyfel, chwyldro neu unrhyw **ddigwyddiad** tebyg
- llygredd neu halogiad a oedd:
 - yn ganlyniad i weithred fwriadol
 - yn ddisgwyliedig ac nid yn ganlyniad i ddigwyddiad sydyn, annisgwyl ac adnabyddadwy

- ▶ unrhyw hawliad sy'n deillio'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol o weithred derfysgaeth. Yn yr achos hwn, mae gweithred derfysgaeth yn golygu paratoi, bygwth defnyddio neu ddefnyddio unrhyw eitem sy'n gallu cynhyrchu llygredd neu halogiad biolegol, cemegol neu niwclear
- ▶ **cerbydau a badau**
- ▶ beiciau pedal a'u hategolion
- ▶ dannedd gosod
- ▶ gweithredoedd a dogfennau heblaw trwyddedau gyrru, pasbortau neu gardiau prawf oedran
- ▶ dogfennau a thystysgrifau sy'n dangos perchnogaeth cyfranddaliadau, bondiau a buddsoddiadau ariannol eraill
- ▶ planhigion neu anifeiliaid
- ▶ gweithredu unrhyw eitem yn groes i gyfarwyddiadau'r gwneuthurwr



Amodau cyffredinol

Mae'r amodau hyn yn berthnasol i'r polisi cyfan

1. Dyletswydd yr unigolyn yswiriedig

Wedi darganfod unrhyw **ddigwyddiad** a all arwain at hawliad, rhaid i'r **unigolyn yswiriedig** yn ddi-oed

- a) ddweud wrthym am unrhyw ddigwyddiadau o golled, difrod (megis difrod tân neu ddŵr, lladrad neu ddamwain) neu atebolwydd sy'n gysylltiedig â'r yswiriant cyn gynted â phosibl p'un ai ydynt yn arwain at hawliad ai peidio. Rhaid i'r **unigolyn yswiriedig** roi'r holl wybodaeth a chymorth i **ni** y gall fod eu hangen arnom **ni**.
- b) rhoi gwybod i'r heddlu am unrhyw golled, lladrad, ymgais i ddwyn neu ddifrod maleisus ar unwaith neu cyn gynted ag sy'n rhesymol bosibl
- c) darparu pob prawf, gwybodaeth a thystiolaeth arall sy'n berthnasol i'r hawliad i **ni** yn rhad ac am ddim yn unol â'r hyn a all fod yn ofynnol gennym **ni**

Allwn **ni** ddim ystyried unrhyw hawliad oni bai ei fod yn cael ei hysbysu i **ni** yn unol â thelerau'r amod hwn

2. Trefn hawlio

- a) Rhaid anfon pob llythyr, hawliad, gwrit, gwŷs a phroses ymlaen i **ni** ar unwaith ar ôl ei dderbyn. Rhaid rhoi rhybudd ysgrifenedig hefyd i **ni** cyn gynted ag y bydd gan yr **unigolyn yswiriedig** wybodaeth am unrhyw erlyniad neu gwest mewn cysylltiad ag unrhyw **ddigwyddiad** y gallai fod atebolwydd amdano o dan y polisi hwn. Ni ddylid gwneud unrhyw gyfaddefiad, cynnig, addewid, taliad nac indemniad na'i roi gan neu ar ran yr **unigolyn yswiriedig** heb ein cydsyniad ysgrifenedig
- b) Bydd gennym **ni** hawl i gymryd drosodd ac i gynnal yn enw'r **unigolyn yswiriedig** amddiffyniad neu setliad ar gyfer unrhyw hawliad neu i erlyn unrhyw hawliad yn enw'r **unigolyn yswiriedig** er ein budd ein hun a bydd gennym ddisgresiwn llawn wrth gynnal unrhyw achos ac wrth setlo unrhyw hawliad. Rhaid i'r **unigolyn yswiriedig** roi pob cymorth a all fod yn ofynnol yn rhesymol gennym **ni**
- c) Bydd hawl gennym **ni** ar unrhyw adeg i gymryd camau yn ein henw **ni** neu yn enw'r **unigolyn yswiriedig** er adennill unrhyw ran o'r eiddo yswiriedig neu er sicrhau ad-daliad mewn perthynas ag unrhyw golled neu ddifrod a bydd yr **unigolyn yswiriedig** yn rhoi'r holl wybodaeth a chymorth i **ni** a allai fod yn ofynnol yn rhesymol gennym **ni**. Pan delir unrhyw hawliad o dan y polisi hwn (heblaw am dâl am atgyweirio) bydd unrhyw ran o'r eiddo yswiriedig y gwneir taliad amdano yn eiddo i **ni** yn ddarostyngedig i hawl yr **unigolyn yswiriedig** i'w hawlio'n ôl o ad-dalu i **ni** y swm a dalwyd
- d) Mae gennym **ni** hawl mewn **digwyddiad** lle ceir unrhyw golled neu ddifrod i eiddo i fynd i mewn i'r adeilad lle mae'r golled neu'r difrod wedi digwydd ac i gymryd a chadw meddiant o'r holl eiddo o'r fath ac i ddelio â'r gwaith achub ac adfer mewn modd rhesymol a bydd y polisi hwn yn brawf o ganiatâd a thrwydded at y diben hwnnw. Ni chaniateir ildio unrhyw eiddo i **ni**
- e) Os bydd hawliad yn **digwydd**, yn deillio o un digwyddiad sy'n dod o dan fwy nag un adran **yswiriant**, bydd y **tâl-dros-ben** uchaf yn berthnasol i'r hawliad cyfan
- f) Rhaid rhoi gwybod am bob hawliad i **ni**, ynghyd ag unrhyw dystiolaeth gefnogol a all fod yn ofynnol gennym **ni**, cyn pen 40 diwrnod ar ôl y digwyddiad



Amodau cyffredinol

Mae'r amodau hyn yn berthnasol i'r polisi cyfan

3. Gofal rhesymol

Rhaid i'r unigolyn yswiriedig bob amser:

- a) gymryd pob cam rhesymol i atal damwain, colled a difrod.
- b) sicrhau bod drysau allanol a ffenestri y gellir eu cyrraedd i'r **cyfeiriad yn ystod y tymor** yn weithredol pryd bynnag y bydd y **cyfeiriad yn ystod y tymor yn wag**
- c) cynnal a chadw'r holl eiddo sydd wedi'i yswirio mewn cyflwr da a chaniatáu i **ni** gael mynediad rhesymol ato bob amser.

4. Cymal canslo

Gallwn **ni** ganslo'r polisi hwn lle mae rheswm dilys dros wneud hynny trwy roi saith niwrnod o rybudd ysgrifenedig i **ddeiliad y polisi** yn ei gyfeiriad hysbys diweddaraf. Byddwn **ni**'n ad-dalu unrhyw bremiwm a allai fod yn ddyledus yn unol â thelerau'r amod hwn. Gall rhesymau dilys gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i:

- ▶ newid risg o dan y polisi hwn nad ydym **ni**'n gallu ei yswirio;
- ▶ lle mae **deiliad y polisi** neu'r **unigolyn yswiriedig** yn methu ag ymateb i geisiadau gennym **ni** am wybodaeth neu ddogfennaeth bellach;
- ▶ lle mae **deiliad y polisi** neu'r **unigolyn yswiriedig** wedi rhoi gwybodaeth anghywir ac wedi methu â darparu eglurhad pan ofynnwyd am hynny;
- ▶ lle mae deiliad y polisi neu'r unigolyn yswiriedig yn torri unrhyw un o'r telerau ac amodau sy'n berthnasol i'r polisi hwn;
- ▶ defnydd o ymddygiad neu iaith fygythiol neu ymosodol, neu godi ofn neu fwlio **ein** staff neu gyflenwyr, gan **ddeiliad y polisi**, gan **unigolyn yswiriedig** neu gan unrhyw un sy'n gweithredu ar eu rhan.
- ▶ os byddwn **ni**'n canslo'r polisi hwn byddwn **ni**'n dychwelyd ad-daliad cymesur o'r premiwm a dalwyd mewn perthynas â chyfnod yr **yswiriant** sydd heb ei ddefnyddio, oni bai bod hawliad, neu ddigwyddiad sy'n debygol o arwain at hawliad, wedi digwydd.

5. Cyflafareddu

Os bydd unrhyw wahaniaeth barn yn codi o ran y swm sy'n cael ei dalu o dan y polisi hwn (a bod atebolrwydd wedi ei gyfaddef fel arall) cyfeirir y gwahaniaeth hwnnw at gyflafareddwr a fydd i'w benodi gan y partïon yn unol ag unrhyw ddarpariaethau statudol sydd mewn grym am y tro. Pan fydd unrhyw wahaniaeth yn cael ei gyfeirio at gyflafareddu o dan yr amod hwn, bydd gwneud unrhyw ddyfarniad yn rhagamod i unrhyw hawl i weithredu yn ein herbyn **ni**.

6. Hawliadau twyllodrus

Os bydd unrhyw hawliad o dan y polisi hwn yn dwyllodrus mewn unrhyw fodd neu wedi'i gamliwio o ran maint neu os bydd unrhyw fodd neu ddyfais dwyllodrus yn cael ei ddefnyddio gan yr **unigolyn yswiriedig** neu gan unrhyw un sy'n gweithredu ar ran yr **unigolyn yswiriedig** er mwyn cael unrhyw fudd o dan y polisi hwn, fyddwn **ni** ddim yn talu unrhyw ran o'r hawliad a bydd yr holl **yswiriant** a ddarperir gan y polisi hwn yn cael ei fforffedu.

7. Tystiolaeth o werth

Ar gyfer unrhyw eitem unigol o emwaith sy'n werth mwy na **£600**, bydd angen i'r **unigolyn yswiriedig** ddarparu tystiolaeth o'i werth os **digwydd** colled neu ddifrod i'r eitem honno. Gall tystiolaeth dderbyniol o werth fod ar ffurf:

- (a) y dderbynneg brynu wreiddiol, neu
- (b) prisiad ysgrifenedig heb fod yn fwy na phum mlwydd oed

Gall methu â darparu tystiolaeth ddigonol o werth effeithio ar allu'r **unigolyn yswiriedig** i hawlio am golled neu ddifrod i'r eitem(au).



Sut i hawlio

Endsleigh, eich yswiriwr, neu asiant arall sy'n gweithredu ar ran yr Yswiriwr fydd yn delio â'ch cais. Ceir gwybodaeth cysylltu ar gyfer hawliadau yn eich dogfennau croeso i'r polisi ac ar **ein gwefan** endsleigh.co.uk/claim-centre

1. I wneud hawliad, dylai'r **unigolyn yswiriedig**:

- a) ffonio Endsleigh ar y rhif ffôn uchod.
- b) anfon atom **ni** unrhyw:
 - ▶ dderbynebaw, biliau, prisiadau neu amcangyfrifon atgyweirio fel sy'n briodol ar gyfer pob hawliad am golled neu ddifrod,
 - ▶ manylion llawn unrhyw ddamwain neu anaf a phrognosis cynnar ar gyfer hawliadau damweiniau personol.
- c) rhoi manylion llawn cyn pen 40 diwrnod wedi'r digwyddiad ynghyd ag unrhyw dystiolaeth ategol y gall fod ei angen arnom **ni**.

Rhaid rhoi gwybod i'r heddlu am bob hawliad am ddwyn neu golled.

2. Mae rhannau o'r **yswariant** (er enghraifft atebolrwydd personol) wedi'u darparu er mwyn **yswiro**'r **unigolyn yswiriedig** rhag hawliadau gan eraill. Os caiff yr **unigolyn yswiriedig** ei ddwyn yn gyfrifol am golled, difrod neu anaf mae'n hanfodol ei fod yn:

- a) dweud wrthym ar unwaith ac yn darparu manylion ysgrifenedig cyn gynted â phosibl
- b) anfon unrhyw ohebiaeth, gwrit, gwŷs neu ddogfennau cyfreithiol eraill a gyflwynir iddynt atom **ni** ar unwaith. Rhaid i'r **unigolyn yswiriedig** beidio â chyfaddef atebolrwydd nac ateb unrhyw ohebiaeth heb **ein** caniatâd. Byddwn **ni** wedyn yn delio â phob mater mewn perthynas â'r hawliad hwnnw ar ran yr unigolyn yswiriedig.

3. Mewn rhai achosion gallem **ni** drefnu i naill ai aelod o **ein** staff neu aseswr colledion siartredig annibynnol drafod yr hawliad gyda'r **unigolyn yswiriedig**. Nid yw hyn bob amser yn angenrheidiol ond pan fydd, byddwn **ni**'n rhoi enw a chyfeiriad yr aseswr colledion i'r **unigolyn yswiriedig** ac yn monitro cynnydd yr hawliad.



Ynglŷn â'ch yswirwyr

Manylion eich yswiriwr

YMae eich yswiriant llety bloc Endsleigh wedi'i warantu gan **Zurich Insurance plc**.

Cwmni cyfyngedig cyhoeddus wedi'i gorffori yn Iwerddon. Rhif Cofrestru **13460**

Swyddfa gofrestredig: Zurich House,
Ballsbridge Park
Dublin 4
Iwerddon

Cangen wedi'i chofrestru yng Nghymru a Lloegr Rhif Cofrestru BR7985

Prif swyddfa cangen y DU: The Zurich Centre
3000 Parkway
Whiteley
Fareham
Hampshire
PO15 7JZ

Awdurdodwyd gan Fanc Canolog Iwerddon ac yn ddarostyngedig i reoleiddio cyfyngedig gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol. Mae manylion am hyd a lled **ein** rheoleiddio gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol ar gael gennym ni o wneud cais. Gellir gwirio'r manylion hyn ar Gofrestr Gwasanaethau Ariannol yr FCA trwy eu gwefan

www.fca.org.uk neu trwy gysylltu â nhw ar **0800 111 6768**. Ein Rhif Cyfeirnod Cwmni yw **203093/**

Trosglwyddo risg

Mae Endsleigh yn gweithredu fel asiant i'r yswiriwr ar gyfer casglu ac ad-dalu premiymau a thalu hawliadau. Mae hyn yn golygu bod premiymau yn cael eu trin fel pe baent yn cael eu derbyn gan yr yswiriwr pan fydd Endsleigh yn derbyn arian wedi'i glirio a bod unrhyw ad-daliadau premiwm neu arian hawliadau yn cael eu trin fel pe baent wedi eu derbyn gennych chi pan fyddant yn cael eu talu i chi mewn gwirionedd. Mae yna adegau pan fydd trafodion o'r fath wedi'u cyfyngu (er enghraifft, i dderbyn premiymau yn unig) a bydd Endsleigh yn dweud wrthy ch a yw hyn yn wir.

Diogelu data

Gellir gweld y manylion llawn yn **ein** polisi preifatrwydd a geir yn endsleigh.co.uk/privacy Mae Endsleigh wedi ymrwymo i fod yn dryloyw ynglŷn â sut rydym **ni'n** trin eich data a gwarchod eich preifatrwydd.

Trefnir y polisi yswiriant hwn gan Endsleigh Insurance Services Ltd sydd wedi'i gofrestru yn Lloegr Rhif 856706. Mae Endsleigh Insurance Services Limited yn gyfryngwr yswiriant sy'n gweithredu ar ran yr yswiriwr. Rydym wedi ein hawdurdodi a'n rheoleiddio gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol. Ein rhif Cofrestr Gwasanaethau Ariannol yw 304295 <https://fca.org.uk/register>. Mae ein prif fan busnes yn Shurdington Road, Cheltenham, GL51 4UE. Mae Endsleigh Insurance Services Limited yn eiddo i Endsleigh Limited sy'n aelod o grŵp cwmnïau A-Plan. Mae gan Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr (y Deyrnas Unedig) ddiddordeb yn Endsleigh Limited hefyd.

Mae eich yswiriant llety bloc Endsleigh wedi'i warantu gan Zurich Insurance plc. Zurich House, Ballsbridge Park, Dublin 4, Iwerddon. Awdurdodwyd Zurich Insurance plc gan Fanc Canolog Iwerddon ac mae wedi'i awdurdodi ac yn ddarostyngedig i reoleiddio cyfyngedig gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol. Mae manylion am hyd a lled rheoleiddio Zurich Insurance plc gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol ar gael gennym ni o wneud cais. Rhif Cofrestr FCA 203093.